# DINESYDD
## Tachwedd

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1983
RHIF 101


# ANRHYDEDDU CWMNI DAWNS WERIN CANOLFAN CAERDYDD



GWOBR EUROPA AM GELFYDDYD WERIN 1983

Frau Dr Lore Toepfer yn cyflwyno Gwobr Europa am Gelfyddyd Werin 1983 i Christine Jones, cynrychiolydd Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd. Yn y llun hefyd y mae (o'r chwith i'r dde) Dr. Alexander Fenton, aelod o'r Rheithgor Cydwladol a fu'n gyfrifol am gymeradwyo'r grŵp buddugol; Dr. Elwyn Davies, Cadeirydd Pwyllgor Amgueddfa Werin Cymru; a Mr. Trefor M. Owen, Curadur Amgueddfa Werin Cymru.

# EMRYS



EMRYS JARMAN

Y cain a'r prydferth a berthyn i'n gwlad
a goludoedd dillyn
ei hiaith hi, y pethe hyn
a hoffodd a'u hamddiffyn.

Yn hwyliog wrth fygylu, efo'i holl
gyfeillion o'i ddeutu
yn y bwlch, mor ddygn y bu
Emrys yn gwarchod Cymru.

T.A.W.

TEYRNGEDAU TUDALEN 5

# GOLYGYDDOL

Daeth y bêl hirgron i'w hoed unwaith eto gyda thymor y gemau rhyngwladol a Chaerdydd yn ymddangos fel prifddinas go iawn am noson neu ddwy. Y tafarndai'n orlawn. Sgarffiau'n chwifio. Ac oglau chwys a sglodion ar hyd ein strydoedd. Y pethau ymylol yw'r rhain, wrth gwrs.

Ymylol ac arwynebol iawn yw holl oblygiadau 'cenedlaethol' rygbi. Myth a phropaganda wedi ei greu gan BBC Cymru yw sail y bri a roddir ar y gêm hon. A'r ffars fwyaf yw ei galw'n "gêm genedlaethol". Prin iawn yw'r diddordeb mewn rygbi mewn ardaloedd helaeth o'r wlad. I'r cyfryngau Prydeinig mae capitaleiddio ar boblogrwydd y gêm mewn rhai rhannau o'r De yn ffordd hwylus o gicio a throsi cenedligrwydd gwirioneddol o ymdeimlad cymdeithasol a gwleidyddol pwerus i sbloet o genedlgariad sy'n fwy o sŵn a chwrw na dim o sylwedd.

Ers rhai blynyddoedd bellach trosglwyddwyd y manipiwleiddio hwn o'r cyfryngau i'r sefydliadau sy'n rhedeg y gêm ei hun.

Ar waethaf y ddelwedd macho, aeth asgwrn cefn yn beth prin. Ni welwyd hynny yn fwy eglur yn unman nac yn ymweliad diweddar y bechgyn ysgol o Dde Affrica ag ysgolion yn y cylch. Trefnodd Undeb Rygbi Cymru yr ymweliad gyda chyfrwystra anghyffredin. Fe wyddent y byddai mudiadau gwrthapartheid yn codi twrw pe doi'r cyhoedd i wybod am y daith, ac felly y bu - er mawr syndod cyhoeddus i swyddogion yr Undeb.

Fe honnodd cyn-swyddog o Glwb Rygbi Pentyrch mai mater preifat i'r bechgyn oedd yr ymweliad. Oedd yn gwneud i ddyn ofyn efo pwy y buon nhw'n cysgu, ac oedd rhywun yn feichiog eto?

Yn anffodus, nid yw chwaraeon (yn fwy na'r un agwedd arall o weithgarwch dynol) uwchlaw hualau gwleidyddiaeth. Mae sôn am 'dîm cenedlaethol' mewn unrhyw chwarae yn golygu, o reidrwydd, ein bod yn siarad mewn termau gwleidyddol.

I ddynion nad ynt yn cael derbyn tâl am eu camp, mae'n ddealladwy fod y posibilrwydd o daith i chwarae rygbi yn yr haul yn apelio'n fwy na glynu wrth egwyddor. Ond os yw'r gêm am adfer ei hurddas a'i hunanbarch ar feysydd rhyngwladol chwaraeon, bydd yn rhaid iddi ddod o hyd i gydwybod wydn yn rhywle.

Neu tybed nad yw'n bryd ailwampio yr holl egwyddor o amaturiaeth sydd wrth wraidd y gêm? Nid yw'n ymddangos yn rhesymol nac yn deg na chânt elwa o rygbi os yw pobl yn fodlon talu iddynt. Mae'n rhyfedd o fyd lle caiff taflwr dartiau ennill bywoliaeth fras o'i sgiliau, ond na chaiff chwaraewr rygbi.

Petai arian mawr yn dod i bocedi'r dynion hyn yn gyfreithlon, efallai na fyddent mor barod i werthu egwyddorion er mwyn ychydig o 'fringe benefits'.

Ni all yr embaras blynyddol yma o ymwneud â De Affrica barhau. Mae'n sarhad arnom fel cenedl - mae hynny'n sicr. Ond efallai fod nam cynhenid yn y gêm ei hun yn cael ei ddatgelu hefyd. Datblygodd rygbi ar feysydd chwarae bonedd Lloegr, fel modd o feithrin dynion o gymeriad - arweinwyr dewr i'r Ymerodraeth, gwŷr o blwc, o gryfder ac o anrhydedd. Nid yw'r rhinweddau hynny'n deillio'n rhy amlwg o'r gêm heddiw, ysywaeth.

******

Un gair personol i orffen.

Petaech wedi gofyn i mi rai blynyddoedd yn ôl pwy oedd Emrys Jarman, buaswn wedi gorfod addef anwybodaeth, tan i rywun grybwyll ei fod yn frawd i'r Athro Jarman ac yn dad i Geraint. Ers imi ymuno â thîm y Dinesydd, roedd yr anwybodaeth honno wedi diflannu'n llwyr. Roedd ei waith a'i ofid parhaus dros gyllid y Dinesydd yn lafur cariad i ryfeddu ato a'i edmygu. Llywiodd y papur trwy ddyfroedd ariannol geirwon mewn modd cadarn ond diymhongar. Roedd ei lais, ei wên a'i hiwmor bob amser yn dawel. Yn dawel a charedig. Gŵr bonheddig o ddyn. Un sy'n gadael bwlch aruthrol ar ei ôl. Wrth resynnu na chefais ei adnabod am gyfnod yn hwy, ni allaf ond diolch imi gael ei adnabod o gwbl.

Mae ein cydymdeimlad trylwyraf fel Pwyllgor gyda Mrs. Myfanwy Jarman a'r teulu oll.

# Y CALENDR

Tachwedd:

7 Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch, Noson yng nghwmni Gwenlyn Parry. 7.30 p.m.

10 Merched y Wawr, Cangen y Garth "Delwedd ar Dylan yng nghwmni Stan Jones". Neuadd y Pentref, Pentyrch.

11 Cymry'r Wenallt yn y Pantmawr am 8 o'r gloch, gyda Gwynfor Hughes ar ei ymweliad â Rwsia.

11 Twmpath Dawns, Clwb Ifor Bach, Bar hwyr. Yr Elw at Eisteddfod yr Urdd 1985. Tocynnau £1 (oddi wrth Einir Wyn, Ysgol Glantaf neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor Dawnsio Gwerin).

14 Cymry'r Eglwysnewydd, Capel y Methodistiaid, Yr Eglwysnewydd. Noson gyda Mrs. Beti Wyn Davies. 7.30 p.m.

14 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30 p.m. Bywyd a gwaith Joseph Parry gyda Dulais Rhys.

16 BORE COFFI, Ysgol Feithrin y Waun, Canolfan y Waun, King George Vth Drive, 10 o'r gloch.

16 Cwmni Cyfrif Tri yn perfformio Anterliwt, Y MAWR, Y BACH A'R LLAI FYTH, Ysgol Rhydfelen, 7.30. Tocynnau £1 (Plant a Phensiynwyr 50c) oddi wrth Elwyn Hughes. Ffôn: Pontypridd 491849.

17 Clwb y Dwrlyn. Casglu hen bethau od yng nghwmni Noel Williams. Ysgol Gynradd Creigiau.

19 Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd, Caerdydd 1985. Pwyllgor Cyhoeddusrwydd - Disco gyda Ieuan Rhys i blant ysgolion cynradd, rhwng 5 a 7 o'r gloch, Mynediad 20c yn cynnwys anrheg. Canolfan yr Urdd.

Dawns gyda'r grŵp 'Eryr Wen', rhwng 8 ac 11 o'r gloch. Mynediad £1.50 yn cynnwys anrheg. Canolfan yr Urdd.

21-26 Theatr Arena'r Sherman. Cwmni Llwyfan Made in Wales yn cyflwyno CANNED GOODS, Dick Edwards.

24 Cymdeithas Wyddonol Caerdydd a'r Cylch; Adeilad Redwood, Athrofa'r Brifysgol, Parc Cathays, 7.15 p.m. Siaradwr: Dr. Hywel Williams, Ysbyty'r Brifysgol.

30 Pat Lewis yn cynnal Noson Trefnu Blodau yn Ysgol Lakeside am 7.30 p.m. Elw i Eisteddfod yr Urdd, 1985. Tocynnau £1.50 i'w cael oddi wrth: Caerdydd 751750 neu 490287.

Rhagfyr:

2 CYNGERDD NADOLIG, Eglwys Dewi Sant. O dan nawdd Ysgol Feithrin Y Waun.

3 Noson Gaws a Gwin, Neuadd y Plwyf, Dinas Powys, 8 p.m. Tocynnau £1.50. O dan nawdd Ysgol Feithrin Dinas Powys.

3 Ffair Nadolig Glantaf. Yn yr ysgol.

5 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30 p.m. Croesawn gangen y Barri.

5 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Gwesty'r Parc, 7.30 p.m. Prif Westai: Gwyn Griffiths, BBC.

---

CLWB Y CYMRIC

Canlyniadau misoedd Medi a Hydref:

Tîm Cyntaf:

17 Medi v Fitzalan; colli 4-6
24 Medi v Tongwynlais colli 0-1
1 Hydref v St. Josephs ennill 4-1
8 Hydref v Grange Albion colli 3-5 (cwpan Lord Ninian Stuart)
15 Hydref v St. Mary's ennill 3-1
22 Hydref v Tresimwn ennill 5-2

Ail Dîm:

17 Medi v Cathays Utd. colli 1-3 (cwpan City Supporters)
24 Medi v Wells Utd. colli 2-4
1 Hydref v Fairoak colli 2-4 (cwpan)
8 Hydref v Cardiff Hibs cyfartal 1-1
15 Hydref v Woodville Hotel colli 0-1
22 Hydref v Avenue Hotspur cyfartal 3-3

TYSTEB
EGLWYS MINNY STREET,
CAERDYDD.

Gwahoddwn gyfraniadau gan gyn-aelodau a chyfeillion at Dysteb i'r diweddar Barchg. D.T.Evans i gofio yn ddiolchgar am ei weinidogaeth ddisglair, ffyddlon a chadarn dros gyfnod o 21 mlynedd. Cyflwynir y Dysteb i Mrs. Lena Evans cyn diwedd Tachwedd 1983.
John H. Davies, Trysorydd,
13 St. Margaret's Road,
Yr Eglwysnewydd, Caerdydd.

****************************


Os am

DIWNIWR PIANO

Cysyllter â



Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal,
Ffôn: Caerdydd 43367


****************************

# MARATHON

Hon oedd y drydedd flwyddyn i bapur y Western Mail i drefnu Marathon yng Nghaerdydd. Rhedodd tua dwy fil a hanner y Farathon lawn; ac am y tro cyntaf, trefnwyd hanner Marathon i'r bobol hynny na theimlent yn ddigon hyderus i daclo'r un gyfan; ac yn yr hanner, rhedodd rhyw fil o bobol.

O ran tywydd, roedd yn ddiwrnod perffaith i redeg chwe milltir ar hugain - dim gwynt, dim glaw, a dim haul - felly, nid oedd y tywydd yn esgus i neb eleni na fedrodd gael amser da, neu na fedrodd orffen y cwrs!

Ar ôl ymarfer dyfal a chyson, teimlodd y pump rhedwr o Rydfelen yn ffyddiog y gallent gwblhau'r cwrs. Roedd Mr. D. Huw Jones (athro gwaith coed) yn rhedeg Marathon am y tro cyntaf, ond, roedd y ddau arall wedi cael y profiad o'r blaen - Mr. Arwel Owen (athro ymarfer corff) ddwywaith o'r blaen, a Mr. Derek Griffiths (athro bywydeg) unwaith o'r blaen.

Rhedai Gareth Davies, bachgen o'r bedwaredd flwyddyn ei ail Farathon yng Nghaerdydd hefyd, ond hon oedd y gyntaf i Stephen Davies, bachgen o'r bumed flwyddyn, i fod arni.

Mae'n wirioneddol hyfryd i fedru rhoi'r ffeithiau, a dweud i'r pump marathonwr o Rydfelen orffen y cwrs, fel a ganlyn:

Arwel Owen - 3 awr 05 munud
Derek Griffiths - 3 awr 51 munud
D. Huw Jones - 3 awr 54 munud
Gareth Davies - 3 awr 57 munud
Stephen Davies - 4 awr 20 munud

Rhedodd dau arall o'r athrawon yn yr 'hanner', sef Mr. Dafydd Pretty (athro hanes) a Mr. Huw Jones (athro mathemateg).



D.Huw Jones, Arwel Owen, Derek Griffiths, Gareth Davies, Stephen Davies

---

Llongyfarchiadau i Nest Griffith a Martin Hughes ar eu priodas yn ddiweddar.

---

Llongyfarchiadau i Dylan Hughes, Lakeside, ar ddod yn ail mewn cystadleuaeth i holl ysgolion Caerdydd mewn ymarferion beicio. Roedd Dylan yn ddisgybl yn Ysgol y Wern cyn iddo ddechrau yng Nghlantaf ym mis Medi.

---

A yw'n bosibl cael gafael ar enwau Cymry Cymraeg Caerdydd sydd yn yrrwyr tacsi, peintwyr, saer maen, saer coed, teiliwr, siopwr, cyfreithiwr, cyfrifydd, neu unrhyw fath o grefftwr.

O gael enwau'r bobl yma byddai'n bosib wedyn i'r bobl gyffredin nad ydynt yn perthyn i unrhyw sefydliad Cymraeg i wybod at bwy i fynd pan mae'r angen yn codi.

G. Maddocks.
62, Ninian Rd,
Parc y Rhath.

## GWIN Y DATHLU

gan HAVARD GREGORY

AR BA ADEG Y DYLID YFED CHAMPAGNE?
A chydio wrth yr arferiad traddodiadol, yr ateb yw: pa bryd bynnag y mae gennym rywbeth da i'w gofnodi. Nid gwin y bwrdd a'r pryd bwyd a'r wledd, mewn gwirionedd, yw champagne - er imi fod mewn aml bryd bwyd pan nad oedd ond hwn i'w yfed. Camddefnydd ohono yw hyn, yn fy marn i. Gwin y dathlu yw champagne, i'w yfed ar ei ben ei hun. Wedi'r cyfan, mae cant a mil o winoedd y gwnewch well chwarae teg â hwynt - ac â'r bwyd - wrth eu dewis yn ofalus gyda bwyd. Ond testun arall yw hynny, y cawn gyfle i'w ystyried hwyrach rywdro yn y dyfodol.

O BLE Y DAW'R ENW 'CHAMPAGNE'?
O'r dalaith sy'n dwyn yr enw, i'r dwyrain o Baris: i'r de o ddinas Reims ac o amgylch tref Epernay, ac oddeutu afon Marne. Bu brwydro gwaedlyd yma yn y Rhyfel Mawr cyntaf. Dyma'r ardal bellaf oll i'r gogledd lle mae gwinllannau byd-enwog Ffrainc. Nid yn unig i'r ardal hon y mae'r enw i'w gyfyngu, ond hefyd i'r broses arbennig iawn o gynhyrchu'r gwin nodedig yma. Defnyddir yr enw yn aml mewn gwledydd y tu allan i Ewrop, fel petai'n golygu dim ond y broses. Ond y fro hon yn unig a all greu'r rhywbeth unigryw hynny mewn champagne gwirioneddol, drwy ei hinsawdd a chemeg ei phridd.

PA RAWNWIN SY'N RHOI GWIN CHAMPAGNE?
Yn fwyaf oll, y Pinot Noir, un o'r mathau croenddu enwocaf, ffynhonnell gwin-oedd Byrgyndi neu Bourgogne, ynghyd â'r Pinot Blanc a'r Pinot Chardonnay. Cofiwch mai gwyn yw'r sudd oddi mewn, er mai du yw croen y Pinot Noir, fel sy'n amlwg o'r enw.

PA DYMHEREDD YW'R GORAU WRTH YFED CHAMPAGNE?
Oerwch e', da chi! Ond peidiwch â'i rewi chwaith! Tua 7 neu 8 gradd Cynradd sy'n iachus iddo; hynny yw, tua'r 45 neu 46 F.

A DDYLID GADAEL I'R CORCYN NEIDIO ALLAN?
Hyn sy'n rhoi'r hwyl i lawer; ond chwarae plant yw'r arferiad, oherwydd dyma'r ffordd orau i golli blas a rhinwedd champagne y bu blynyddoedd o lafur cariad yn angenrheidiol i baratoi'r mathau gorau ohono. Y ffordd orau o agor y botel yw ei dal, yn gyntaf, rhyw 45 gradd oddi wrthych a'i goleddu i ffwrdd; gosod tywel bach rhwng eich llaw a gwddf y botel; dal y corcyn yn eich llaw arall; a throi'r botel yn ara' deg oddi wrth y corcyn. Y cyfan a gewch wedyn yw 'pop' y gwynt a chwmwl bychan, heb fod y gwin yn bwrw ewyn dros y bwrdd neu'r llawr - neu chithau. Os byddwch mor drwsgwl â gwneud hynny, byddwch yn haeddu cael eich glychu i'r croen! Os gwnewch chi'r peth yn iawn, byddwch wedi cadw rhin y gwin yn gyfan.

BETH AM Y GWYDR GORAU?
Yr un tal, main, yw'r un iawn - y 'flûte', fel y geilw'r Ffrancwr ef. Yn sicr, nid yr un llydan, bas. 'Wn i ddim ai chwedl yw'r hanes mai ar ffurf bronnau Marie Antoinette y seiliwyd yr ail wydr yma. Dyna destun i un o haneswyr colofnau'r DINESYDD ei drin a'i drafod!

## SALEM, CANTON

Ar brynhawn Sadwrn, Hydref 15ed, cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Ysgolion Sul, Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg yn Salem, Canton.

Plant Salem gyda chymorth rhai o'r oedolion fu'n gyfrifol am y rhaglen nodwedd. Gan ei bod hi yn flwyddyn arbennig yn hanesyddol, sef blwyddyn dathlu tri chan mlwyddiant geni Griffith Jones, Llan-ddowror, priodol oedd gwneud bywyd a gwaith y cawr hwn ymhlith cewri'r gorffennol yn thema i'r rhaglen.

Mrs. Eleri Rogers a Mr. Dennis Francis a fu'n gyfrifol, wedi gwaith ymchwil trylwyr, am ysgrifennu'r sgript a chynhyrchu'r rhaglen ar ffurf "Dyma dy fywyd". Fe'n hatgoffwyd mewn modd trawiadol a gafaelgar am waith arhoesol Griffith Jones wrth sefydlu ysgolion ledled Cymru a'r cymorth a gafodd gan nifer o wyr da ei ddydd megis Syr John Phillips, Madame Bevan, Howell Harris ag eraill.

Bu'r plant wrth eu bodd yn perfformio ar y noson, a'r perfformiad yn adlewyrchiad o ymarfer trwyadl a chyson yr wythnosau cynt o dan arweiniad athrawon yr Ysgol Sul. Coronwyd eu llafur a'u brwdfrydedd gyda pherfform-iad graenus a chanmoladwy a oedd yn wir deilwng o'n cofio am gyfraniad byth-gofiadwy Griffith Jones Llanddowror.

**R.A. DREW**
**158 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen, Treganna. Tel 28796**
*Ffrwythau a Llysiau o bob math*
*Cyflenwad ffres beunydd*
Hefyd yn
Y Farchnad Ganolog, Caerdydd
Stryd Dynrafon Isaf, Tonypandy, a
Camm's Corner, Dinas Powys.

**FRANKLIN'S**
***POBYDDION, 160 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen, Treganna. Tel 29861***
Bara, Teisennau, Cacenni, Peis,
Pasteiod Ffrwythau, Pasteiod Cernyw,
Pasteiod cig. Pob math o fwydydd ffres
o'r ffwrn bod dydd.

# EMRYS MALDWYN JARMAN

## COLOFN
Shân Emlyn

Daeth cwmwl du dros y Dinesydd, a rhifyn trist yw'r rhifyn hwn. Brawychwyd holl ddarllenwyr y papur gan farwolaeth sydyn, cyn pryd ein trysorydd, Emrys Jarman.

Bydd y bwlch ar ei ôl yn enfawr. Dyn tawel mwyn oedd Emrys, yn caru'r encilion ond fe wnaeth dwrn da o waith dros fywyd Cymraeg y ddinas.

Er ei fod yn ddyn prin ei eiriau bydd pwyllgorau'r Dinesydd yn wag iawn hebddo. Wrth drafod cynnwys a gwead y papur yn fisol, rydym fel pwyllgor yn euog o fod yn hirwyntog, yn anymarferol yn amal ac yn codi degau o sgwarnogod. Beth am gael rhagor o dudalennau? Oes raid codi mwy o arian? Be fydd hi 'leni, barbaciw neu Barti Dolig? Oedd 'na elw'r llynedd? Faint? Oes modd gwerthu'r papur yn hytrach na'i ddosbarthu am ddim? Ydy'r grant wedi dod? Yr un agenda bron bob mis. Gwyddai pob un ohonom cyn diwedd y noson y caem adroddiad ariannol byr, tawel, clir. Sylwadau Emrys ddeuai â threfn i'r pwyllgor. Roedd trysorydd-iaeth Emrys cyn saffad â'r Banc 'i hun.

Meddyliwn am Myfanwy, Geraint, Tannwen, Catrin a'u teuluoedd. Gobeithiwn y bydd Teulu'r Dinesydd yn fodd iddynt deimlo bod yna gymdogaeth dda, glos, fydd yn gallu eu cynnal yn eu gaeaf oer, hyd yn oed mewn dinas fawr fel Caerdydd all fod yn lle digon amhersonol. Nid anghofiwn ni gyfraniad Emrys i'r Dinesydd nag i lawer o gylchoedd eraill.

Dyna falch ydwi mai un o ddyletswyddau cyhoeddus olaf Emrys oedd bod ar lwyfan y Brifwyl yn derbyn y wobr ariannol yng nghystadleuaeth Bwrlwm Bro. Mae rhywbeth gweddus, addas ac urddasol yn hynny.

---

Gwelodd y mis diwethaf, Hydref 1983, gyhoeddi canfed rhifyn Papur Bro cyntaf Cymru, sef 'Y DINESYDD'. Golyga hyn ymdrech barhaol a di-ildio ar ran nifer cymharol fach o bobl a fu wrthi'n ddi-baid drwy'r blynyddoedd yn casglu newyddion, golygu, cysodi, casglu hysbysebion, gohebu, cynnal pwyllgorau a chyfarfodydd blynyddol, a chasglu arian drwy apêl - oddi wrth y cyhoedd, cymdeithasau, capeli, yr hysbysebwyr, grwpiau o bob math, heb anghofio'r dysgwyr, Cymanfaoedd 'Codi'r To', parti, unigolion a gyfrannodd arian mewn symiau unigol neu drwy gytundebau banc, Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru, a thrwyddynt hwy yn ddiweddar, Swyddfa Cymru.

Gwelir gymaint o waith a olygir gan y gair 'arian', a sylweddolir felly gymaint o waith ac mor bwysig i'r holl ymdrech fu cael person a ymgymerai â'r gwaith hwnnw fis ar ôl mis drwy gydol y blynyddoedd a aeth heibio er pan sefydlwyd y papur a chyhoeddi Rhifyn 1 ar y cyntaf o Ebrill 1973. Ers blynyddoedd, y person a ymgymerodd â'r gwaith pwysig hwn oedd Emrys Jarman, ac ni chafodd unrhyw bapur bro yng Nghymru well gwas na'r "cyfaill hoff cytun" hwn y daeth ei ymadawiad o'n plith mor ddisymwyth arnom ddydd Mawrth, 11eg Hydref, ac yntau'n 65 oed.

Wedi'i eni ym Mangor, yn fab i rieni a ddaeth yno o Gaergybi, dechreuodd weithio, ac yntau wedi tyfu'n ddyn, yn y banc - yn y man yn ardal Llandudno-Bae Colwyn, ac oddi yno aeth yn gyfrifydd yn gyntaf yn Sir Fôn ac yna mewn ysbyty yn Ninbych. Symudodd yn 1954 i Gaerdydd lle bu'n gweithio fel cyfrifydd o hynny ymlaen.

Ond yn cyd-redeg â'r gwaith hwn yr oedd y pethau mawr yn ei fywyd y rhoddodd gymaint o'i amser a'i egni iddynt ar hyd y blynyddoedd, yn bennaf ei aelwyd ei hun lle y cododd ef a'i annwyl wraig, Myfanwy, nythaid o Gymry Cymraeg da, Tannwen, Catrin a Geraint.

Er ei bwysiced, nid dyna'r cyfan o bell ffordd, oherwydd bu hefyd o gryn gymorth i achosion eraill, megis Plaid Cymru, yr Ysgol Gymraeg, Clwb Cinio Cymraeg Caerdydd, ac yn arbennig Y Dinesydd. Drwy'r cyfan, dyn tawel, anymwthiol, diwyd dros yr achos ydoedd, dyn na fyddai ond ychydig yn gwybod maint ei gyfraniad enfawr i'r achosion a gefnogai, achosion sydd o'r pwys mwyaf i Gymru ac a oedd mor agos ato. Mawr yw ein dyled iddo.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Myfanwy, y plant a'r wyrion yn eu colled. Cyd-alarwn, ond cyd-lawenhawn hefyd, bawb ohonom, am gael adnabod a chyd-weithio ag Emrys Maldwyn Jarman.

Raymond Edwards

---

Dymuna Myfanwy Jarman a'r teulu gydnabod yn ddiolchgar y llu o arwyddion o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth lem a sydyn.

YR EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG, CAERDYDD

------

Estynnwn groeso i ddau gyfarfod arbennig, ddydd Sadwrn, Tachwedd 19, yn y Memorial Hall, Heol y Bontfaen. Am 2.30 p.m. traddodir darlith 'Martin Luther' gan y Parch Noel Gibbard, M.A. Eleni, wrth gwrs, yw pumcanmlwyddiant geni y diwygiwr a'r cenedlaetholwr mawr yma. Am 6 o'r gloch cynhelir oedfa bregethu pan y pregethir gan y Parch J. Elwyn Davies (Penybont). Yn ystod y Cyfarfod hwn byddwn yn croesawu y Parch Gwyn Williams a'i deulu atom ni. Fe ymuna Mr. Williams â'r ddau henuriad presennol, Noel Gibbard a Phil Ellis, gan rannu'r cyfrifoldeb arbennig am weinidogaeth y gair gyda Mr. Gibbard. Bydd Mr. Williams yn cael ei neilltuo i'r gwaith hwn yn yr oedfa.

Mae'r Eglwys yn dal i gyfarfod ar y Sul yn Nhŷ'r Cymry. Manteisiwn ar y cyfle i estyn gwahoddiad cynnes i'n Gwasanaethau (Bore 10.30, Nos 6.30).

---

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

# TORTH O FARA

MAS A'R MARS !

Rhyw dipyn bach o bopeth fydd yn y golofn newydd yma, gan gynnwys materion yn ymwneud â phrynu a datblygiadau yn ymwneud â bwydydd a maeth, gan mai athrawes Gwyddor Cartref sy'n ysgrifennu'r golofn!

Yn ystod y gwyliau un o'm hoff ddifyrion yw cael amser i astudio'r papur Sul o glawr i glawr ac mae'n ddiddorol mynd trwy'r erthyglau bach na fyddwn fel arfer yn cael amser yn ystod y tymor ysgol i'w darllen. Un erthygl o'r math yma a ddaliodd fy sylw yn ddiweddar oedd hanes ymchwil a wnaed ym Mhrydain ac America.

Os yw eich plant wedi bod yn ymddwyn yn ddrwg, peidiwch â'u beio nhw na'r ffordd yr ydych wedi eu dwyn i fyny. Beiwch y bwyd y maent yn ei fwyta, canys dywed yr arbenigwyr bod rhai bwydydd cyffredin yn debygol o greu teimladau drwg ym mhlant a phobl ifanc ac maent yn gweithredu' teimladau yma allan. Rhai o'r bwydydd gwaethaf yw siwgr, halen a choffi a'r bwydydd cyfleus sy'n drwythedig gyda halen a siwgr.

Gwelir caethder i siwgr gwyn gan Dr. Leonard Hippchen (sy'n astudio troseddau) fel cychwyn y ffordd i berson fod yn gaeth i gyffuriau neu'n alcoholig pan yn hŷn.

Rhoddir mwy o bwyslais ar y bwyd a fwyteir y dyddiau yma ac mae'n wir bod newid lluniaeth yn gallu cael effaith dda, e.e. ar afiechydon fel clefyd coeliac a migraine; felly efallai bod rhyw wirionedd yn y syniadau yma. Nid yw'r Athro A.J. Viltos yn cytuno â chanlyniadau'r astudiaethau a wnaed. Ef yw cyfarwyddwr Cymdeithas Ymchwil Siwgr y Byd! Gwelir yn barod yr effaith ar fasnach siwgr y byd fel canlyniad o bobl yn gyffredinol yn bwyta llai o siwgr.

Felly, mamau a phlant, cymerwch gyngor - llai o'r "Sausage, Bîns a Chips" a'r bariau 'Mars' i'ch helpu weithio, chwarae a gorffwys, (h.y. i'ch helpu weithio ar sut i osgoi gwaith cartref; chwarae ar fod yn droseddwr ifanc a gorffwys o fore tan nos!) a mwy o'r bwyd iachusol amdani.

Bydd adroddiad gan Dr. Colgan (maethwr o Galifornia) Mr. Kitchener (cyfarwyddwr siop gyfanfwyd yn Llundain) a'r Parch Vic Ramsey (cyfarwyddwr y 'New Life Foundation Trust') yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol buan a'r effaith newid lluniaeth a ymddygiad troseddwyr yn y carchar. Fe fydd yn adroddiad y bydd mamau sy'n pryderu am eu plant afreolus eisiau ei ddarllen hefyd!

Luned Davies.

---

Y CYNGOR UNEDIG AR ALCOHOL A CHYFFURIAU ERAILL.

Bydd y mwyafrif o ddarllenwyr y Dinesydd mae'n siwr yn gwybod am fodolaeth y Cyngor uchod ac am yr Ysgrifennydd Cyffredinol diwyd a gweithgar, y Parch Ddr. T.J. Davies, sydd yn ceisio cyflawni gwaith dau berson y dyddiau hyn, hynny yw tan y bydd y Parch Eirian Rees, Ysgol Gyfun Bryncelynnog a Thabernacl Efail Isaf, yn ymuno gyda ni ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Manteisiaf ymhellach ar y cyfle hwn fel Trysorydd Anrhydeddus y Cyngor i ddiolch yn fawr i nifer o Gymry Cymraeg Caerdydd sydd wedi ymateb mewn ffordd ymarferol i'r cylchlythyrau a anfonais yn gynnar yn mis Medi. Gan y byddaf i hefyd yn ymuno i weithio'n amser llawn gyda'r Cyngor o fis Medi nesaf ymlaen, rwy'n falch iawn i ddeall fod yna gefnogaeth i waith y Cyngor yma yn y brifddinas.

Cofiwch os i chi am ffilm, sgwrs neu siaradwr i draethu ar y testun hwn, yna ffoniwch 493895 neu anfonwch nodyn at 112 Heol Albany oherwydd mae'r Cyngor yn bodoli er mwyn gwasanaethu'r gymdeithas gyfoes sydd yn rhan anatod o'n profiadau beunyddiol.

Gwilym E. Davies.

---

BYD Y BOL

INDO-CYMRU, CANTON

"Tyrd am fwyd", ebe ffrind. "Indian?", meddwn innau. "Dydw i ddim yn siŵr. Mmm. O'r gorau".

A dyna sut y cefais fy hun yn Cowbridge Road East - stryd ddieithr imi sydd bron â dianc yn y nos ac sy'n rhy bell o ganol y ddinas i ddenu riffraff o fwytawyr. Neu o leiaf dyna a feddyliais. O! Paham y bodlonaf ar gael fy arwain fel hyn?

Roedd torf swnllyd o ŵyr bonheddig hirwallt mewn denim yn dyfod allan o dafarn leol. Torrwyd potel yn yfflon ymhlith hwtiau o chwerthin. Sampl o liw lleol, meddyliais, wrth iddyn nhw fynd heibio yn llawn diniweidrwydd, fel ynyswyr y Môr Tawel yn gwneud dawns ryfel i groesawu brenhines!!!

O'r diwedd dyma gyrraedd yr Indo-Cymru. Roedd y llenni wedi eu tynnu a doedd dim bwydlen i'w gweld. Oedd e'n lle drud, tybed?

I mewn â ni. Roedd y fyddin denim wedi dechrau troi yn ôl a rhedeg tuag atom.

Doedd dim amdani ond archebu. Y rheolwr yn fawr ei groeso a'i awydd i blesio. Daeth â bwydlen ac yn wir roedd hi'n gystadleuol iawn ei phrisiau.

Fydda i byth yn siŵr a ydw i'n hoffi curry. Dim ond Vesta thrôns a flasais. Yn awr roeddwn am flasu un heb na fest na thrôns. Haf oedd hi - pawb mewn shorts.

Roedd y gwasanaeth yn rhagorol a'r curry ysgafn a gefais yn plesio'n iawn. Rown i am seidr sych gyda'r pryd ond dim ond seidr melys oedd ganddynt. Nid oeddynt yn derbyn Access ychwaith, er i'r rheolwr ein sicrhau fod trefniadau wrth law i newid hynny.

Gallwn weld wrth nifer y Cymry Cymraeg yno fod y lle eisioes yn cynnig cystadleuaeth i'r Euro-Asian poblogaidd ar draws y ffordd. Dyna pam y'i galwyd yn Indo-Cymru efallai?

Ac awn i yn ôl? Siŵr iawn. Rhowch chithau gynnig arni. Pan adawsom roedd y botel deilchion yn dal ar y palmant a'r llanciau a'i malodd wedi diflannu.

Bil Collins

# NEWYDDION-NEWYDDION-NEWYDDION

Cymeriad newydd i blant wedi ei seilio ar fysiau adnabyddus y brifddinas fydd symbol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Cylch 1985.

Arwr yr Ŵyl fydd 'Byrti Bws' - cymeriad lliwgar o waith y cartwnydd, Cen Williams. Bws gwyn, coch a gwyrdd - lliwiau swyddogol yr Urdd - yw Byrti.


Fe fydd yn ymddangos ar y nwyddau a werthir i godi arian i'r eisteddfod yn cynnwys crysau 'T', a crysau chwys, capiau, bathodynnau, a llawer o nwyddau eraill, ac ar bapur swyddogol yr Ŵyl.

Bwriad pwyllgor cyhoeddusrwydd yr Eisteddfod o'r cychwyn oedd cael symbol fuasai'n apelio at blant, gan mai eisteddfod ieuenctid yw'r ŵyl.

Dywedodd Mr. Mansel Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyhoeddusrwydd, fod y syniad o gael bws yn symbol wedi apelio'n fawr at y pwyllgor. "Rydym yn hyderus y bydd y plant yn hoff o'r cymeriad ac y byddant am ddilyn helyntion y bws dros y ddwy flynedd o hyn i Eisteddfod '85".

"Rwy'n sicr y bydd y symbol, gan ei fod yn un cyffrous a byw, yn denu mwy o gyhoeddusrwydd i'r eisteddfod nag y buasai symbol mwy traddodiadol. Er enghraifft, rydym yn gobeithio cael stori a chân wedi eu hysgrifennu cyn bo hir gyda 'Byrti' yn brif gymeriad".

Dywedodd Mr. Malcolm Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, "Mae bysiau yn symbol o un agwedd bwysig ar fywyd Cymraeg y Brifddinas ers bron chwarter canrif wrth i rieni frwydro am addysg Gymraeg i'w plant. Maent wedi gwneud mwy o ddefnydd na neb, mae'n siwr, o fysiau Caerdydd i gludo'i plant i ysgolion Cymraeg y Brifddinas".



Fe lansi'r y symbol mewn dau achlysur yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd ar nos Sadwrn, Tachwedd 19eg. Cynhelir disco i blant ysgolion cynradd rhwng 5 a 7 o'r gloch, a dawns gyda'r grŵp 'Eryr Wen' rhwng 8 a 11 o'r gloch. (Pris mynediad i'r disco 20c. yn cynnwys anrheg, ac i'r ddawns £1.50 yn cynnwys anrheg). Fe fydd nwyddau 'Byrti Bws' ar werth yn y ddau achlysur gyda'r elw yn mynd tuag at yr Eisteddfod.


**KEN DAVIES**
***FFERYLLYDD***
***32A Heol Ddwyreiniol y Bontfaen,***
***Treganna,***
***CAERDYDD***

**GWALIA TRAVEL SERVICES LTD**
**98 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen, Treganna**
**Tel 45550/28834**
**101 Heol Caerffili, Caerdydd**
**Tel 617228/9**
***Gwyliau a Theithiau byd-eang***
***Cynigion arbennig***

**Theatr Cymru**
**Y GELYN PENNAF**
gan
**NAN LEWIS**
Enillydd Tlws y Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, 1982

Drama am deulu hapus a chanddynt weledigaeth hardd. Buan, serch hynny, y try hyn yn drychineb erchyll oherwydd obsesiwn y Tad am amddiffyn ei dipyn eiddo.

**THEATR SHERMAN**
**Sul, 20 TACHWEDD. 8.00**
**Tocynnau: £3.60**
(gyda gostyngiadau i £2.60)
**Swyddfa Docynnau: Caerdydd 30451**
Gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru a chydweithrediad Cymdeithas Theatr Cymru.

# GWOBR EUROPA 1983

Mewn seremoni yn Amgueddfa Werin Cymru nos Fercher, Hydref 5, 1983, cyflwynwyd Gwobr Europa am Gelfyddyd Werin 1983 i Gwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd gan Frau Dr Lore Toepfer ar ran Sefydliad F.V.S. Hamburg.

Sefydlwyd y wobr hon yn 1973 gan ŵr busnes o'r Almaen y mae ganddo ddiddordeb arbennig yn niwylliant y lleiafrifoedd, y Dr. Alfred Toepfer. Y mae'r wobr hon yn un o dair-arddeg o wobrau a ddyfernir gan Sefydliad F.V.S. Hamburg am gyfraniad nodedig i fywyd Ewrop. Cyflwynir Gwobr Europa am Gelfyddyd Werin ddwywaith y flwyddyn, y naill dro i wlad yn nwyrain Ewrop a'r tro arall i wlad yn y Gorllewin.

Llywyddwyd y noson yn Sain Ffagan gan y Dr. Elwyn Davies, Cadeirydd Pwyllgor Amgueddfa Werin Cymru a ddywedodd fod Gwobr Europa am Gelfyddyd Werin 1983 wedi ei dyfarnu i Gwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd "am deilyngdod uchel yn ei berfformiadau, ac am ei weithgarwch creadigol yn olrhain, atgynhyrchu, ac addasu yn ôl gofynion cyfoes, agweddau traddodiadol ar ddawnsio, canu, defod a drama a allasai fod mewn perygl o ddiflannu". Yna gwahoddodd Dr. Davies un o'r pump aelod o'r Rheithgor Cydwladol a fu'n gyfrifol am gymeradwyo'r grŵp buddugol i Sefydliad F.V.S. Hamburg, y Dr. Alexander Fenton o Gaeredin, i draethu 'Laudatio'. Cyfeiriodd Dr. Fenton at gysylltiad y Cwmni Dawns ag Urdd Gobaith Cymru ac am ei lwyddiant fel grŵp perfformio yng Ngwledydd Ewrop yn ogystal â Chymru.

"Y mae, fodd bynnag, yn llawer iawn mwy na grŵp perfformio yn unig. Ymchwiliodd hefyd i hen draddodiadau ei gynefin, ac atgyfododd rai arferion gwerin sy'n cynnwys dawns, cân, defodaeth a drama".

"Er 1971, o fewn i Ddeuddeg Dydd y Gwyliau, bu'n cludo'r Fari Lwyd o ddrws i ddrws, dan ganu penillion gwreiddiol yn seiliedig ar fathau traddodiadol. I'r dwsinau o bobl yr ymwelir â hwynt tyfodd hyn yn elfen naturiol a dymunadwy yn nathliadau'r Nadolig".

"Yn Llanilltud Fawr, pentref gwledig ym Mro Morgannwg, darganfu grŵp ddrama werin draddodiadol, gan ei mabwysiadu i'w pherfformio yn ei ffurf 'wreiddiol' i gychwyn, ac yna trwy lunio addasiad mwy cyfoes arni".

Derbyniwyd y wobr ar ran Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd gan un o'r aelodau cyntaf, Christine Jones. Yn ogystal â thystysgrif hardd a medal i goffau'r achlysur, cyflwynodd Frau Dr Lore Toepfer siec o 9000DM (£2,500) i'r Cwmni Dawns.

Cafwyd wedyn rhaglen hanner awr o berfformiadau gan y Cwmni Dawns yn cynnwys Rali Twm Siôn, Y Ddrama Werin, Cadi Ha, Ceiliog y Rhedyn, Y Fari Lwyd a Gŵyl Ifan. Cyflwynwyd torch o flodau i Frau Dr Lore Toepfer gan Gadeirydd y Cwmni Dawns, Gill James.



**Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd yn perfformio Meillionen ar ôl derbyn Gwobr Europa am Gelfyddyd Werin 1983.**

CLWB CRICED CAERDYDD

"Beth yw'r Haf imi?" - dim byd heb griced fydd yr ateb y tymor nesa os yw'r freuddwyd o sefydlu Clwb Criced Caerdydd am gael ei wireddu.

Dyma enghraifft arall o fwriad Clwb Ifor Bach i ychwanegu at ei weithgareddau y tro yma gyda thimau criced o'r aelodau.

Bydd y timau yn chwarae yn ôl pob tebyg ar nos Fercher a dydd Sadwrn; hefyd, ac os bydd galw, ar brynhawn Sul. Gobeithir y bydd rhai o'r timau canol wythnos yn Gymraeg/Gymreig, e.e. timau capeli a chymdeithasau athrawon/rhieni ysgolion Cymraeg.

Yn barod mae nifer calonogol o ddewrion wedi torri eu henwau ar hysbysfwrdd y Clwb.

Cynhelir cyfarfod sefydlu Clwb Criced Caerdydd yng Nghlwb Ifor Bach ar yr 8fed o Ragfyr am 7.30 p.m., os bydd digon o ymateb ysgrifenedig cyn y laf o Ragfyr 1983.

Felly os ydych heb ymaelodi â Chlwb Ifor Bach eto a diddordeb gennych mewn chwarae criced, ysgrifennwch at: Clwb Criced, d/o Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd.




GWERSI PIANO
Athro Profiadol
Ffon: Caerdydd 567538

GAIR O DDIOLCH

Dymuna Anne a Ken Innes ddiolch yn gynnes iawn i'w llu cyfeillion am eu cymorth ymhob ffordd i wneud y noson Gaws a Gwin ar gyfer ysbyty Harefield mor llwyddiannus. Gwnaed elw sylweddol o tua £1,300. Diolch hefyd i bawb a fu mor garedig a chyfrannu er nad oeddent yn gallu bod yn bresennol ar y noson.

# Y SILFF LYFRAU

Gwyn Morgan Lloyd (Gol.)
MISTAR MOSTYN A STORIAU ERAILL, Gwasg Gomer, £1.50

Gwyn Morgan Lloyd (Gol.)
YSBRYD Y FELIN A STORIAU ERAILL, Gwasg Gomer, £1.50

----

Mae'r ddwy gyfrol uchod yn cynnwys storiau a ddarlledwyd yn ystod cyfres Radio Cymru i ysgolion, 'Gwrando a Deall'. Bwriedir y gyfrol gyntaf ar gyfer plant 7-9 oed, a'r ail gyfrol ar gyfer plant 9-11 oed. Addurnir y gyfrol gyntaf gan luniau tri-lliw deniadol Glyn Rees a'r ail gan luniau du-a-choch bywiog Roger Jones. Ceir wyth stori ym mhob cyfrol.

Hiwmor sy'n nodweddu'r ddwy stori orau yn y gyfrol gyntaf. Gwyn Thomas yw awdur 'Stori Sbeic', stori wirion ond difyr sy'n llawn o gyffyrddiadau gogleisiol, fel cawr sy'n gwisgo esgidiau maint 89. Efallai y bydd rhai athrawon yn anghymeradwyo rhai agweddau ar iaith yr awdur ond dim ond un peth a ymddangosai'n chwithig i mi, sef defnyddio 'ynteu' lle y buasai 'te' yn fwy naturiol.

Irma Chilton sydd yn gyfrifol am y stori gwbl lwyddiannus arall, 'Ditectif', stori am fachgen sydd wedi gosod ei fryd ar fod yn dditectif er gwaethaf pryfocio ei gyfaill. Mae diweddglo gyfryd i'r stori hon.

Yn yr ail gyfrol mae tair stori arbennig o dda. Lluniodd Derec Llwyd Morgan stori swynol am uchelgais bachgen, 'Dali-boi'. Dod yn gricedwr o fri yw breuddwyd y bachgen hwn a rhai llongyfarch yr awdur ar greu stori hapus a chredadwy. Byddwn i'n croesawu cyfrol swmpus o storiau cyffelyb gan yr un awdur.

'Pan oedd Dad yn blentyn' yw teitl gampus Gareth Lewis. Yma profwn y gwrthdaro cyfeillgar, cariadus rhwng tad sy'n mynnu cofio'r gorffennol a'i blant sy'n syrffedu, braidd, ar glywed ei atgofion.

Plentyn yw'r storiwr yn 'Y Nyth' gan Gwynne Williams. Dyma awdur arall y dylid comisiynu cyfrol o storiau ganddo. Ef, yn sicr, yw'r awdur mwyaf llwyddiannus yn y ddwy gyfrol; tysor o stori, iaith raenus, a dim awydd i 'siarad i lawr'.

Philip Wyn Jones.

H.P.Richards, WILLIAM EDWARDS, D. Brown a'i Feibion,£2.50
Catrin Stevens, SGORIO 1,000 : 7 Yn y Wlad
8 Yn y Brifddinas
Y Lolfa, 75c yr un
Islwyn Griffiths (addas.)
SHAHID O BANGLADESH, Ivan Corbett, £2.95, CBAC.

----

Pleser mawr i un a gerddodd droeon dros yr 'Hen Bont' ym Mhontypridd oedd gweld cyhoeddi bywgraffiad byr o William Edwards - 'Architect, Builder, Minister'. Llyfr Saesneg ydyw, yn olrhain gyrfa William Edwards yn weinidog ar eglwys Groeswen ar ochr mynydd Eglwysilan am 45 o flynyddoedd, ei waith yn codi pontydd ym Mhontypridd a nifer o fannau eraill o Abertawe i'r Clas-ar-Wy, a'i gysylltiad â Threforus - y pentref y bu'n gyfrifol, i raddau helaeth, am ei gynllunio - ac â'r Ymerodres Rwsiaidd Catrin 111. Dyma lyfr darllenadwy iawn ac arno ôl ymchwil ofalus, yn llawn o ffeithiau diddorol a lluniau a bras-luniau rhagorol.

Gwnaeth Gwasg y Lolfa gymwynas fawr â phlant Cymru wrth gynhyrchu'r gyfres 'Sgorio Mil'. O'r deg cyfrol yn y gyfres, darllenais ddwy - Yn y Wlad ac Yn Y Brifddinas. Ym mhob cyfrol mae cyfle i blentyn 'sylwi a sgorio', a gofalodd yr awdur gynnwys testun diddorol a chynhwysfawr yn gefndir i'r chwilio a'r sylwi, sy'n ychwanegu'n helaeth at werth y llyfrau bach. Trueni am ansawdd nifer o'r ffotograffau a brasluniau lle mae'n amhosibl gweld y manylion. Sylwais ar ambell wall argraffu yn y gyfrol 'Yn y Wlad' - goeden (goden) t. 66; Pynwydden (Pyrwydden) Norwy t.86, ac Andrew Dibble (nid Dribble) yw gôl-geidwad tîm peldroed Dinas Caerdydd. Ond mân frychau yw'r rhain mewn llyfrynnau da iawn.

Llyfr darllen i blant yw SHAHID O BANGLADESH, un o gyfres sy'n 'canolbwyntio ar fywydau pobl gyffredin o wledydd eraill', eu gwaith, eu harferion a'u dull o fyw. Cloriau caled, a digonedd o luniau lliw rhagorol, a thestun diddorol a darllenadwy am fywyd a gwaith bachgen un ar ddeg oed, Shahid, sy'n gweithio fel porter yn y farchnad yn Dacca. Llyfr sy'n siwr o apelio at blant Cymru.

D. Gwyn Jones.

Gweneth Lilly, NADOLIG Y BWTHYN, Tŷ John Penry,£1.20
Jill Murphy, HEDDWCH O'R DIWEDD, Gwasg y Dref Wen, £1.50.

'Nadolig y Bwthyn'. Chwedl Wyddelig yw sail y ddrama sy'n rhoi ei theitl i'r gyfrol a Noswyl Nadolig yw'r cefndir. Ceir yma anifeiliaid sy'n siarad, plant henaidd a llawer o ddigwyddiadau rhamantus-grefyddol ac ofergoelus, megis sêr sy'n canu. Mae mam y teulu yn fwy o realydd na'r gweddill. Diolch amdani.

Mae'r ddrama 'Rhosyn y Dywysoges' wedi ei seilio ar nifer o themâu chwedl-onol. Gwelwn sut mae rhosyn pren a gerfiwyd gan fachgen tlawd yn toddi calon tywysoges annifyr. Braidd yn wan yw ymdrechion yr awdur i greu hiwmor ar sail enwau rhai o'r cymeriadau.

Chwedl o Sbaen oedd sail 'Y Grisiau Aur'. Roedd cath yn siarad yn yr ail ddrama, cerrig sy'n siarad yn hon. Mae dau frawd yn mynd ar daith i geisio dŵr iachusol i'w mam. Yr un sy'n ymddwyn yn Gristnogol sy'n llwyddo, wrth gwrs.

Addasiad ar ffurf meim a naratif, o stori Oscar Wilde yw 'Y Cawr Hunanol'. Mae'n amlwg fod y stori hyfryd hon wedi ysbrydoli'r awdures. Gresyn fod cynifer o wellau cysodi yn y gyfrol hon. Dyma rai ohonynt: Anhwster, bbaban, drw, itit, llŷffant, Mae rhagor.

Addasiad o'r Saesneg yw 'Heddwch o'r Diwedd' ond ni nodir enw'r addasydd. Dyma stori, ynghyd â lluniau lliw-llawn, am deulu o eirth sy'n byw mewn tŷ ac yn gwisgo dillad. Rhyfedd o fyd. Mae'r tad yn methu cysgu am ran fwya'r noson. Yna, mae'n amser codi. Manylder a digrifwch y lluniau yw prif rinwedd y gyfrol hon. Dewiswyd geirfa ymestynnol, dda ond mae rhai o'r berfau â golwg ail-iaith arnynt.

Philip Wyn Jones.

Annwyl Olygydd,

Mae'n drueni mawr fod eich colofnydd WJJ wedi troi yn sur a mynnu 'chydig o hunan-dosturi yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd. Rhifyn penblwydd oedd hwn, rhifyn i gyhoeddi fod y Dinesydd yn fyw ac yn iach ac am barhau felly am flynyddoedd i ddod. Yn lle hynny, o ddarllen y llith gallai rhywun deimlo fod yma un a fyddai yr un mor barod i ollwng yr inc o'r botel ag a fyddai i chwythu'r gannwyll ar dop y deisen benblwydd.

Yn sicr, diolch iddo am ei wrhydri yn ystod y deor a'r ieuenctid yn 1973 ac wedi hynny hefyd, ond tybed nad lle eraill yw ei osod yn ei gyd-destun a'i gynnwys os y credent y dylient wneud hynny, ac nid am y credai WJJ y dylent wneud hynny! Ynteu ydi o, megis Alan Llwyd yn hoffi'r math yma o hunan-gyfiawnhad.

Tydi'r diwyg ddim yn iawn; tydi'r cynnwys ddim yn iawn; tydi o ddim yn cymharu â phapurau bro o'r ardaloedd eraill. Does dim angen croesair na cholofn lyfrau, ac mae sôn am y sinema yn sobor o ddianghenraid. Dyna ydi rhai o gwynion WJJ - clywais yr un sylwadau yn y Cyfarfod Cyffredinol - o enau WJJ y tro hwnnw. Chlywais i neb arall yn ei gefnogi pryd hynny, ac nid oes llythyr wedi ymddangos yn y Dinesydd yn cefnogi'r fath safbwynt chwaith.

Tybed felly a ddyliai WJJ eistedd yn ôl (os oes amser ganddo i sbario o ganol y papurau bro nobl) a meddwl am eiliad â'i ar y Dinesydd mae'r bai, ynteu arno fo'i hunan. Ydi o wedi meddwl fod yna bosibilrwydd fod ei weledigaeth o o'r papur bro dinesig yn un cwbl wahanol, a chwbl unigryw, ac o bosibl fod y 2999 o gartrefi eraill sy'n derbyn y Dinesydd ar donfeddi tra gwahanol iddo. Tybed!

MLAENYA TAB YC EUCANTDCH JJWD, Y DANGDD ILYDDGE

Yn gywir,
RHODRI GWYN JONES.

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr at Mrs. N. Couch, 2, Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (758625) erbyn Tachwedd 18fed.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Gohiriwyd codi'r golofn ym mis Hydref oherwydd diffyg gofod ond mae'r defnydd a oedd yma ar ei chyfer yn werth disgwyl amdano. I ddechrau dyma gywydd cabol iawn gan John Wood:

EDRYCH DROS Y BRYNIAU PELL

Mwynhau llu o du Caerdydd
Hwyl y Wenallt a'i lonydd;
Chwarae, edrych a chrwydro
Yw nef y rhain yn y fro.
I'r gogledd, diddiwedd hir
Yw cryndod y cywreindir,
Yn don ar don a daenwyd
Yn nos losg ryw cynnoes lwyd:
Bryniau fyrdd fel dibrin fôr
O gwr i gwr, a goror
Y gorwel dirgel ei dir
Yn creu hedd nas cyrhaeddir.
Bryniau hardd dan wybren haf
Sy'n cuddio yno anaf:
Mae aml erw fu'n ferw dan fwg
Ar y gwaelod o'r golwg;-
Cymoedd fel nadroedd fu'n nerth
A thynfa i waith anferth;
Daeth nychu, chwalu a chau,
Heb adael ond sgerbydau.

Fel hyn, yn ddyfal o hyd,
Y safwn trwy'n hoes hefyd,
Yn mynnu bwrw trem ein bod
Yn bendant heibio'i boendod;
Anghofiwn yr ing ofer
A thro blin, a'r cythru blêr,
A'n sylw ar y bannau sydd
Trwy'n bod yn dod â'r dedwydd.

John Wood

Un a fu'n dawedog yn rhy hir yw William Davies, a phleser yw cael cyhoeddi ei englyn twt yntau y tro hwn.

Y WENYNEN

Â'i gwasg fain a'i gwisg fonedd, yn ddyfal,
Yn ddof ei hymarwedd;
Angau, mwy, ei chlwy o'i chledd,
Y ddewraf ei chynddaredd.

William Davies

A dyma droi at gystadleuaeth yr englyn. Y testun, fel y cofiwch, oedd COELCERTH a daeth pump i'r maes. Diolch yn fawr iddynt am eu cefnogaeth ac am ymddiried eu gwaith imi.

1. TONYPANDY

Cer. O! Cer, Guto Ffowc iach i affwys
San Steffan; mae bellach
Yno bobl fel plantos bach
Diurddas eu clindarddach.

Dyma englyn tymhorol iawn ac mae'n ddigon cywir ei gynghanedd hefyd, ond rwy'n ei gael yn ddryslyd tu hwnt. Galwad yw ar i'r Guto Ffowc atgyfodedig (os dyna ergyd yr ansoddair 'iach') ddychwelyd i gynnau tân ym Mhlas San Steffan am fod yno bobl sy'n ymddwyn fel plant. Eu prepian hwy sy'n cynddeiriogi'r bardd, ond mae'r gair a ddefnyddia sef 'clindarddach', yn awgrymu bod yno goelcerth eisoes.

2. SALEM

Yn ei gwreichion mae gwarchod yn toethi
A melltithio'n gawod.
Er marw'n llathr am eu hathrod
Fyth, wele hwy'n dal i fod.

Nid oes dim o'i le ar y Draws Fantach yn y llinell olaf er y byddai'n well gennyf i ei hail-wampio ychydig:

Wele, fyth, hwy'n dal i fod.

Gair dieithr i mi yw 'toethi' ond dichon mai ei ystyr yw 'cecru' neu rywbeth tebyg. Fodd bynnag y cyfuniad 'toethi'/ 'melltithio' sy'n peri tramgwydd oherwydd sain 'd' sydd i 't' ar ôl 'll' ac i ateb 'melltithio' byddai'n rhaid wrth air fel 'dwthwn' neu 'diwethaf'. Gresyn.

3. O'R LLUDW

Y tremiwr draw o'r trumiau a honnai
Weld Kinnock wallt fflamau;
"Arwydd yw! Daw i'n rhyddhau", -
Ond ton ddaeth dros y tanau.

Englyn clyfar ac annisgwyl. Gwyliwr yn disgwyl am y Mab Darogan a ddaw i achub y genedl sydd yma. Pan wêl un ar y gorwel â'i wallt yn goelcerth mae'n gyffro i gyd, ond siom sy'n dilyn oherwydd fe'i boddir gan ddŵr, a thybiaf mai o ryw ysgol fach yn Sir Fôn y cyfyd y dilyw hwnnw.

4. SION Y COED

Tymor sy'n creu trysorau - uwchlaw swyn
Yw'r gwanwyn wrth gynnau;
Digymar y dwg emau
O wyrth frwd ei goelcerth frau.

Roeddwn yn disgwyl englyn i'r hydref ond mwy anarferol yw gweld y gwanwyn yn goelcerth. Y syniad mae'n debyg yw y creir gemau yn nhân y gwanwyn. Gellir meteloedd o dân, ond tybed a geir gemau ohono? Mae 'coelcerth frau' yn dda, ond nid wyf mor sicr o 'gwyrth frwd'. Englyn swynol er hynny.

5. GOBAITH

COELCERTH
(I'r adfywiad yn y Gymraeg)

Gwelwn gyffro ei golau yn gwawrio
Dros geyrydd hir nosau.
Daw ar hyddlam ei fflamau
Ddydd newydd i'n broydd brau.

Coelcerth o wawr a wêl y bardd hwn, gwawr Gymraeg newydd â'i fflamau yn neidio fel hydd dros y bryniau caerog tywyll a fu'n ei bygwth cyhyd. Dyma weledigaeth gynhyrfus wedi ei mynegi'n gelfydd gyfoethog. Sylwer ar ei eiriau dewis, 'cyffro', 'ceyrydd', 'hyddlam', 'brau', pob un yn talu am ei le. Englyn campus. Hwn yn ddibetrus yw'r gorau gennyf ac mae'n llawn deilyngu'r wobr o £3.

-------

Ei awdur yw GILBERT RUDDOCK. Llongyfarchiadau brwd iddo.

---

MERCHED Y WAWR

Yng nghwmni Côr y Ganolfan y treuliwyd noson ddifyr yn Festri Minny Street ar y 10fed o Hydref. Yn ychwanegol at eitemau amrywiol gan y Côr, cawsom unawdau gan Miss Judith Jones a Mr. Arwel George. Roedd Parti Madrigal y Côr hefyd yn ei lawn afiaeth. Yna i'n difyrru i'r bôn, cafwyd pedair o 'sketches' gwreiddiol eto gan aelodau'r Côr. Wedi diolch iddynt darparwyd paned a thamaid gan y merched i gloi'r noson.

Dymuna'r pwyllgor ddal sylw'r holl aelodau i'r gwahoddiad hwn:

Dymuna'r Arglwydd Faeres (Y Gynghores Mrs. Olwen Watkins)
eich croesawu chi a'ch ffrindiau i
FORE COFFI
yn y MANSION HOUSE, Heol Richmond
Dydd Mercher, Chwefror 22, 1984
(yr elw at Gronfa Merched y Wawr).

AR WERTH

1977 R. RENAULT 12TL

Mewn cyflwr da a dibenadwy. Pris: £800 (neu'r cynnig agosaf).
Ffoniwch: Caerdydd 551484

YSGOL GLANTAF

Llywydd - Y Prifathro, J.E.M. Thomas.
Yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, etholwyd Miss Margaret Parry yn Gadeirydd am y flwyddyn nesaf. Yr Ysgrifennydd yw Dave Bumford a'r Trysorydd yw Dave Baxter.

Roedd Neuadd yr Ysgol yn edrych yn hardd dros ben ar ôl gosod y llenni newydd yn eu lle. Y llenni newydd hyn oedd un o'r gwelliannau a roddwyd i'r ysgol yn ystod y llynedd gan y Gymdeithas. Yn ystod y pum mlynedd a aeth heibio ers agor Ysgol Glantaf, mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi bod yn fodd i ddod a brwdfrydedd ac undod ymysg rhieni, athrawon a phlant.

Ffair Nadolig y Gymdeithas i'w chynnal ar Ragfyr 3, 1983, yw'r gweithgaredd mawr nesaf. Gobeithir y bydd darllenwyr y Dinesydd yn dod wrth y cannoedd i gael hwyl, sgwrs a bargen.

---

Cynhaliwyd datganiad organ - digwyddiad blynyddol bellach, yn Ysgol Rhydfelen, ar Fedi'r ail ar hugain. Mr. Cyril Williams, o Eglwys Sant Catrin ym Mhontypridd oedd yr organydd gwadd, a chwaraewyd dau ddarn gan ddisgybl iddo - Martin Forward o Ffynnon Daf. Cafwyd ambell eitem gan ddisgyblion eraill, a mwynhaodd y gynulleidfa'r difyrrwch.

Anwen Darwin
Helen Mary Davies
Dosbarth 3P

----------------

TAFLEN


LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 37



AR DRAWS:

1. Roedd cywydd Huws yn rhy hir o un llythyren i'w ddefnyddio fel hys-bys. (12)
8. Mae'r slo yn cyrraedd mewn pryd, ond iddynt fwstro. (7)
9. Teulu'r tor-gerddwyr o'r Ardd. (7)
11. Un, medde nhw, sy'n cyflawni hunan-laddiad yn ara deg. (7)
12. Perthnasau o bell i ni. (7)
13. Natur Taid (a Nain). (5)
14. Yr oedd yn wir flin ganddo. (2'1, 6)
16. Mi es o gwmpas, (eithafbwynt De America, er enghraifft). (9)
19. Sôn wrth y ddafad am ei chôt i ddyblu diwydrwydd. (5)
21. Uchelwyr o'r ail radd yn gwneud lles i'r ddau (ii). (7)
23. Byddai yn annog. (7)
24. Enw parchus Y Geiriadur Mawr ar india corn. (7)
25. O ba ran o Sir Fôn wyt ti'n dod, fachgen? (7)
26. Canlyniad ergyd lwcus. (4,3,5)

I LAWR:

1. Ysgrifennydd byr yn cwnnu i gael ymochel rhag y tywydd. (7)
2. Symud clogyrnaidd. (7)
3. Darlun esboniadol effeithiol. (7,2)
4. Math o dŷ a godwyd rhwng cyfnos a gwawr. (5)
5. Parod at iws. (4,3)
6. Ymlanhaf. (7)
7. Enllyn o Drecastell? (4,8)
10. Tynnwyd y llen dreigledig i ddod â chudd dryw i'r golwg. (12)
15. Aeth i glwydo. (9)
17. "Cod bwysau yr hen gloc yna". (7)
18. Generadur. (7)
19. "Gwyllt ymchwydd y don". (7)
20. Gwnawn sbort ohono. (7)
22. Mae'n ymlawenhau yn afieithus yn Llanon. (5)

DATRYSIAD CROESAIR 36

Ar Draws:
1. CNOI CIL; 5. CANNAID; 9. NOSON; 10. CANIATEID; 11. NAW GLASIAD; 12. AGER; 14. YR HEN GANFED; 18. MEDDU CANPUNT; 20. RALI; 21. HANNER CANT; 25. DADLWYTHODD; 26. SUCAN; 27. AFFWYSOL; 28. ADDURNODD.

I Lawr:
1. CANON; 2. OCSIWN; 3. CANMLWYDD CI; 4. LWCUS; 5. CANRANNAU; 6. NI ALL; 7. ABERGOFI; 8. DEDFRYDU; 13. CANTORESAU; 15. HANIAETHOL; 16. YMPRYDIA; 17. ADDOLI DUW; 19. CANCAN; 22. NODDFA; 23. TONYDD; 24. CHWYS.

CYSTADLEUAETH RHIF 36

O'r deg ymgais a ddaeth i law, tair yn unig oedd yn hollol gywir. Yr enw a ddaeth o'r het oedd eiddo Mrs. Beryl Hall, 340 Heol Cyncoed. Fe fydd tocyn llyfrau Cymraeg am £5 yn mynd iddi. Daeth yr ateb cywir arall oddiwrth D.F. Maes-y-Deri, a M.E.D., Llandaf. Fe fydd tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto i'r ymgais gywir a dynnir o'r het. Ysgrifennwch eich enw (neu ffugenw), a'ch cyfeiriad ar ymyl y Croesair a'i gyfeirio at Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Tachwedd 19eg.


Prynwch ANRHEG NADOLIG o GOLEG Y DRINDOD

***

CIPIO'R CESTYLL
(Gêm Gymraeg i'r teulu)

Drwy ateb cwestiynau cyffredinol cewch filwyr i gipio cestyll ac ennill y gêm. Digon o hwyl wrth ychwanegu at wybodaeth gyffredinol eich plant. Pris y gêm: £5 (gan gynnwys cludiant).

O Ganolfan Adnoddau,
Coleg y Drindod,
Caerfyrddin, Dyfed.


YSGOL Y WERN

Mae blwyddyn ysgol newydd yn dod a llawer o weithgarwch yn ei sgil bob amser. Cyfarfu rhieni Ysgol y Wern ganol mis Medi i ddewis swyddogion a phwyllgor am 1983-84 ac i fwynhau cwmni ei gilydd mewn Parti Caws a Gwin. Etholwyd Margaret (Mac) Hughes yn Llywydd ac Elaine Pye yn Is-lywydd. Bydd Stuart Owen-Jones a Buddug Lloyd yn parhau fel Trysorydd ac Ysgrifennydd.

Dangosodd y pwyllgor newydd yn barod eu bod yn griw gweithgar. Trefnwyd Ffair Hydref lwyddiannus iawn ar Hydref 22ain. Cafwyd pnawn heulog a daeth tyrfa i neuadd yr ysgol ac yn eu plith roedd nifer dda o'r ardal o gwmpas yr ysgol. Agorwyd y Ffair gan Arfon Haines Davies o H.T.V.